**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Councillor Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Lechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Geraint Flowers | Arweinydd Prosiect (Cyngor Sir Gâr) |
| Matthew Holder | Pennaeth Archwilio Mewnol (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog A151 ar y Cyd (Cyngor Sir Gâr) |
| Phil Ryder | Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Councillor David Simpson (Cyngor Sir Benfro)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Medwin Hughes (University of Wales Trinity Saint David) a/ac Steve Wilks (Prif Ysgol Abertawe)

Jon Haswell (Swyddog S151 (Cyngor Sir Benfro))

---

## 15 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

## 17 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

## 18 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 19 Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2021-22.

Darparodd Matthew Holder, Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad i ystyried a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol.

Adroddodd y byddai'r Cyd-bwyllgor Craffu hefyd yn cael ei gynnwys yn y 'Trefniadau Adrodd' a amlinellir yn Atodiad A.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn adolygu ac yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2021-22.

## 20 Adroddiad Adolygu Porth 5 Yr Egin.

Darparodd Geraint Flowers (Arweinydd Prosiect yr Egin) adroddiad i roi gwybod i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe am yr adolygiad diweddar ar Borth 5 yr Egin.

**Penderfynwyd** y byddai Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n nodi’r Sgôr Gwyrdd DCA a ddyfarnwyd a'r argymhellion sy'n deillio o’r Adolygiad Porth 5.

## 21 Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau - Cais am newid y matrics arloesedd.

Darparodd Geraint Flowers adroddiad "Er Gwybodaeth" i ddiweddaru Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar y cais i newid Matrics Arloesedd Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a’r Glannau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Flowers am y diweddariad.

## 22 Adroddiad Monitro Chwarterol a Misol Uchafbwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Darparodd Phil Ryder (Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe) adroddiad "Er Gwybodaeth" i roi gwybod i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe am adroddiad Monitro Chwarterol ac Uchafbwyntiau Misol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

Rhoddodd y diweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd, sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Ymgysylltu â Busnesau;
- Yr Egin;
- Prosiect Morol Doc Penfro;
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Pentre Awel;
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Isadeiledd digidol;
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;
- Sgiliau a doniau.
- Campysau BDdBA.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio newidiadau posib Tan15 mewn perthynas ag ardaloedd llifogydd yng Nghymru am 18 mis.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Ryder am y diweddariadau.

**23 Adroddiad Monitro Ariannol 2021/22 - Sefyllfa Canlyniad Rhagolwg Chwarter 2.**

Rhoddodd Richard Arnold, Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) ddiweddariad i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** bod Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn adolygu ac yn cymeradwyo'r adroddiad diweddaru monitro ariannol.

**24 Blaenraglen waith y Cyd-bwyllgor.**

Darparodd Jonathan Burns, Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad i roi gwybod i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe am y blaengynllun gwaith diweddaraf.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n adolygu ac yn cytuno ar y blaengynllun gwaith arfaethedig.

**25 Digwyddiad Arddangos Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Darparodd Jonathan Burns, Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad "Er Gwybodaeth" i ddiweddaru Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar gynigion ar gyfer Digwyddiad Arddangos Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn 2022.

Cynigiwyd y byddai'r digwyddiad yn ddigwyddiad presenoldeb byw, wedi'i fformatio fel digwyddiad arddangos "cwrdd â'r prosiect", yn debyg i ddigwyddiad lansio 2018 ond y tro hwn bydd yn canolbwyntio mwy ar yr hyn sydd ar y gweill o ran caffael a hyrwyddo asedau, cyfleoedd buddsoddi a sut y gallai busnesau gymryd rhan.

Rhybuddiwyd y gallai'r sefyllfa o ran cyfyngiadau COVID-19 effeithio ar ei ddarpariaeth a byddai opsiynau eraill fel rhannol fyw/rhannol ddigidol neu gwbl ddigidol yn cael eu cynllunio ar eu cyfer.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.14 am

**Cadeirydd**